# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Corfforaethol 2021-24

# (Diwygiwyd Mawrth 2022)








MEWN·CYFYNGDER Y·GELWAIST

## Cynnwys


Rhagair ..... 3

Yr Awdurdod ..... 4

Tueddiadau'r Dyfodol ..... 6

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Fframwaith Tân ..... 11

Datganiad Llesiant ..... 13

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ..... 14

Amcanion Corfforaethol ..... 19

Amcan 1:  Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru. ..... 20

Amcan 2: Parhau i weithio'n gydweithredol i gynorthwyo cymunedau i gynyddu eu cadernid. ..... 21

Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. ..... 22

Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid. ..... 23

Amcan 5: Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg. ..... 24

Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. ..... 25

Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael. ..... 26

Camau tuag at gyflawni amcanion corfforaethol yr Awdurdod ..... 27

Cysylltu â ni: ..... 36

Atodiad A – Cyfraniadau'r Awdurdodau Cyfansoddol 2021/22 – 2022/23 ..... 37

Atodiad B – Rhagolygon Poblogaeth Gogledd Cymru ..... 38

## Rhagair

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o gyflwyno Cynllun Corfforaethol 2021-24, sydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru. Y Cynllun hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddogfennau a gyhoeddir i roi crynodeb o flaenoriaethau strategol a chamau arfaethedig yr Awdurdod, ac mae'n darparu'r sail ar gyfer adrodd yn rheolaidd a thryloyw ynghylch y cynnydd. Mae pandemig COVID-19 yn parhau i gael effaith ar yr Awdurdod, gan herio cadernid y gweithlu a'r modd y caiff gwasanaethau cymunedol eu darparu'n draddodiadol. Mae dyfodiad amrywiolyn arall, a gosod cyfyngiadau newydd ledled y wlad, wedi arwain at oedi mewn gwahanol agweddau ar yr adferiad. Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi rhoi cyfle i'r Awdurdod feddwl am ei lwybr ar gyfer y dyfodol, ac wedi rhoi persbectif ffres o gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor.

Mae'r Cynllun diwygiedig a diweddaredig hwn yn cyd-fynd â nodau llesiant Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ymrwymiad yr Awdurdod i greu Gogledd Cymru sy'n gynaliadwy am genedlaethau i ddod. Mae amcanion corfforaethol uchelgeisiol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl a chymunedau; gan gyfrannu at amgylchedd glanach; a mwy o ymwybyddiaeth o'r hinsawdd. Mae'n canolbwyntio hefyd ar geisio cael dulliau cyfathrebu effeithiol a chysylltedd â dinasyddion a rhanddeiliaid, a chynyddu amlygrwydd a chadernid.

Er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf, mae'r staff wedi dangos lefel eithriadol o ymaddasu a chadernid. Llwyddwyd i wneud llawer eisoes, ond mae llawer mwy i'w wneud eto. Er ei bod yn heriol cynllunio ar gyfer y dyfodol mewn adegau ansicr, mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi buddsoddi yn y dyfodol hwnnw ac i ystyried effaith ei benderfyniadau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gwaith a wnaed ers i'r Prif Swyddog Tân newydd ddechrau yn ei swydd ar 1 Gorffennaf 2021 wedi egluro rhai heriau allweddol i'r Awdurdod wrth iddo symud i flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r rhain yn ymwneud â thri maes blaenoriaeth, sef y gallu i sicrhau bod lefel ddigonol o griwiau tân ar-alwad ar gael; darparu digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i gwrdd â'r galw nawr ac yn y dyfodol. Felly, mae cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2022/23, a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2021, yn cynnwys cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

# Yr Awdurdod

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei sefydlu fel rhan o'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

Yr Awdurdod yw'r corff sy'n atebol i'r cyhoedd ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru.

Fel pob corff yn y sector cyhoeddus, rhaid i'r Awdurdod weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys:


Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;
Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017;
Deddf Argyfyngau Sifil 2004;
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
Deddf Cydraddoldeb 2010;
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018;
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cenhadaeth yr Awdurdod yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. I gefnogi’r genhadaeth hon, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi ledled y rhanbarth drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr, a bydd yn ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth i leihau’r risgiau sy’n gysylltiedig â phob math o dân a pheryglon eraill.

Bydd yr Awdurdod yn parhau hefyd i hybu addysg a gweithio ar y cyd â phobl sy’n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth sylfaenol, ac mae’r Awdurdod yn ceisio cynyddu’r siawns o gyflogaeth i bobl a allai ei chael yn anodd cael cyflogaeth tra hefyd yn hybu tegwch a chynhwysiant yn y gweithle.

Gellir gweld ei werthoedd craidd yn y darlun gyferbyn.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth a’r Awdurdod drwy fynd i wefan <u>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</u>.



# Tueddiadau'r Dyfodol

Mae'r angen i ragweld tueddiadau'r dyfodol ac ymaddasu i newid yn rhan hanfodol o broses gynllunio'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi ystyried nifer o effeithiau allanol allweddol wrth osod ei amcanion hirdymor, sy'n cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd
- Seilwaith Cenedlaethol
- Poblogaeth a demograffeg

**Newid yn yr hinsawdd**

Mae hinsawdd y byd yn newid, ac mae angen i Gymru, ynghyd â gweddill y DU, weithredu i liniaru rhag yr effeithiau gwaethaf drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gweithredu a chyflawni ar dargedau sero net. Mae'r newidiadau hinsoddol isod yn debygol o effeithio ar Gymru dros y blynyddoedd nesaf:

| Amrywiol | Newid a welwyd yng Nghymru |
|---|---|
| Tymheredd blynyddol cyfartalog | Cynnydd o 0.9°C o ganol yr 1970au tan ganol y 2010au |
| Glawiad cymedrig blynyddol | Cynnydd o 2.0% o ganol yr 1970au tan ganol y 2010au |
| Heulwen | Cynnydd o 6.1% o ganol yr 1970au tan ganol y 2010au |
| Eithafion y tywydd | Cynnydd ledled y DU mewn digwyddiadau gwres eithafol<br>Prin yw'r dystiolaeth hyd yma o newidiadau mewn glawiad eithafol |
| Lefel y môr yn codi | Cynnydd ledled y DU o ~1.4mm y flwyddyn ers 1901 (16cm hyd yma) |

Tymereddau'n codi

- disgwylir tymheredd blynyddol godi rhwng 1.1°C ac 1.2°C erbyn y 2050au a rhwng 1.3°C a 2.3°C erbyn y 2080au o fan cychwyn 1981-2000
- mae risgiau'n seiliedig â thymereddau uwch, megis tonnau gwres eithafol, yn debygol o ddigwydd yn amlach a chael effaith uniongyrchol ar iechyd a llesiant pobl, gan arwain at bwysau ychwanegol ar y gwasanaethau brys
- bydd cynnydd mewn tymheredd yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod yr haf, ynghyd â chyfnodau sych hirach a dim ond ychydig o lawiad, yn arwain at danau mwy dwys ac yn digwydd yn amlach mewn ardaloedd o laswelltir, coetir a chnydau.

Amrywiadau yn y glawiad

- disgwylir tua 6% o gynnydd yn y glawiad yn ystod cyfnodau'r gaeaf erbyn y 2050au, gan godi ymhellach rhwng 7% ac 13% erbyn yr 2080au, o fan cychwyn 1981-2000
- bydd glawiad uwch yn y gaeaf yn debygol o arwain at lifogydd yn digwydd yn amlach, gan beryglu amharu ar seilwaith hanfodol a difrod i fusnesau a chartrefi. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd glawiad yn yr haf yn gostwng tua 15% erbyn y 2050au, a rhwng 18% a 26% erbyn y 2080au
- mae amrywiadau tymhorol yn y glawiad yn debygol o greu pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth yn sgil tanau glaswelltir, cnydau a choetir amlach yn ystod misoedd yr haf, a chynnydd yn y digwyddiadau'n ymwneud â llifogydd yn ystod misoedd y gaeaf

Digwyddiadau tywydd eithafol

- mae pa mor rheolaidd a dwys yw digwyddiadau yn ymwneud â thymheredd eithafol a glawiad yn debygol o gynyddu, gyda rhai rhagamcanion yn awgrymu y bydd diwrnodau o haf â thymheredd uwch na 40°C yn cynyddu o unwaith ymhob 100-300 mlynedd i unwaith bob tair blynedd a hanner erbyn 2100
- er y bydd cyfnod yr haf yn mynd yn sychach, ac y bydd diwrnodau gwlyb yn mynd yn fwy anaml, rhagamcenir y bydd cyfnodau dwys o lawiad a stormydd mellt a tharanau difrifol yn mynd yn fwy cyffredin, gan arwain at fwy o risg o fflach-lifogydd



Lefelau'r môr yn codi

- rhagwelir y bydd lefelau cymharol y môr yn codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, sy'n golygu bod disgwyl i amlder llifogydd arfordirol gynyddu
- roedd amcangyfrifon o 2004 yn rhagweld bod arfordir Cymru yn erydu ar gyfradd o 20-67m bob 100 mlynedd, a disgwylir i hyn gynyddu i 82-175m, gan ddibynnu ar lefelau allyriadau tŷ gwydr yn y dyfodol

Effaith ar seilwaith

Gyda chyfran mor uchel o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau arfordirol, mae angen ystyried yn ofalus sut bydd seilwaith yn cael ei amharu, yn enwedig o ran:

- gorboethi seilwaith cludiant, megis ehangu cledrau trenau, tarmac yn meddalu ac yn breuo gydag amodau cyson o boethi ac oeri;
- tarfu ar wasanaethau TG a chyfathrebu, gan arwain at ddifrod ac oedi mewn cludiant a seilwaith;
- llifogydd systemau dŵr/carthffosiaeth a hybiau cludiant, gan arwain at ansawdd dŵr is, problemau cyflenwi cludiant/pŵer a difrod i lifoedd dŵr, llethrau neu fethiant argloddiau.

**Seilwaith Cenedlaethol**

Mae seilwaith hanfodol yng Ngogledd Cymru, megis dŵr, egni, cludiant a TGCh yn wynebu risg uniongyrchol o effeithiau newid yn yr hinsawdd, a gyda chyfran mor fawr o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau arfordirol, rhaid ystyried tarfu ar seilwaith yn yr ardaloedd hynny fel rhan o unrhyw strategaeth ar gyfer atal a lliniaru yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal ag effaith newid yn yr hinsawdd ar seilwaith, mae rhai effeithiau posibl eraill, gan gynnwys newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru a demograffig newidiol a allai effeithio ar seilwaith hanfodol ledled y rhanbarth.

Rhwydweithiau ffyrdd

- mae cynnal a chadw ac ansawdd systemau ffyrdd ledled Gogledd Cymru yn hanfodol i ymateb brys. Gallai newidiadau yn rhwydwaith ffyrdd y rhanbarth gael effaith uniongyrchol ar y Gwasanaeth ac mae deall ffactorau allanol yn hanfodol wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol

Tai – perchnogaeth ail gartrefi

- mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod perchnogaeth ail gartrefi yn gallu effeithio ar y galw am dai mewn ardaloedd poblogaidd, ac yn gallu arwain felly at newidiadau lleol mewn prisiau tai. Gall hyn gael effaith ar bobl leol a allai gael eu prisio allan o'r farchnad, gan gynnwys diffoddwyr tân ar-alwad a'u teuluoedd.
- yn ôl data diweddar Llywodraeth Cymru, roedd 24,873 o ail gartrefi yng Nghymru ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Tra bo 20% o eiddo yn ail gartrefi yng Ngwynedd, tua 9% yw'r ffigwr yn Ynys Môn a 5% yng Nghonwy.

Tai fforddiadwy

- yn ôl y diffiniad, tai fforddiadwy yw 'tai â mecanweithiau diogel yn bodoli i sicrhau eu bod yn hygyrch i unigolion sy'n methu fforddio tai ar y farchnad agored'. Ar Fawrth 31, 2020 roedd tua 1.44 miliwn o gartrefi yng Nghymru, sef cynnydd o 5% dros y 10 mlynedd flaenorol. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad mewn termau real yn nifer y tai fforddiadwy.

**Poblogaeth a Demograffeg**

Mae pobl ifanc yn allfudo a phobl oedrannus yn mewnfudo yn arwain at boblogaeth wledig sy'n gynyddol hŷn na'r boblogaeth drefol, (mae'n bwysig nodi y gallai COVID-19 fod wedi arafu'r tueddiad hwn neu fod wedi ei wrthdroi dros dro). Hefyd, mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n mynd yn fwyfwy prin yn effeithio ar gostau byw dyddiol i drigolion gwledig ac ar eu gallu i gael gafael ar wasanaethau a mynd i'r gwaith.

Poblogaeth yn Heneiddio

- Mae proffil demograffig Gogledd Cymru ar gyfer y dyfodol yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ôl y rhagamcanion a gyhoeddwyd ar gyfer yr ardal, fe fydd cynnydd mawr dros yr ugain mlynedd nesaf yn nifer y bobl 75 oed a hŷn a miloedd yn fwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain. Er bod byw'n hirach yn rhywbeth i'w groesawu, gall y rhagamcan o boblogaeth sy'n heneiddio olygu bod llai o bobl o oedran gweithio i gefnogi'r rhai sydd o oedran pensiwn. Mae'r ffigyrau ar gyfer y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos[1] y bydd nifer y bobl o oedran pensiynadwy yn codi o tua 308 am bob 1,000 o bobl yn 2016 i 365 am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2037.

---

[1]https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/overviewoftheukpopulation/january2021

- Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn nodi “*er bod poblogaeth fwy o faint yn cynyddu maint y gweithlu a’i gapasiti i gynhyrchu, mae hefyd yn cynyddu’r pwysau a’r galw am wasanaethau megis addysg, gofal iechyd a thai*”.
- Felly, mae’r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân sy’n cyrraedd y safonau ffitrwydd angenrheidiol, a sicrhau digon o gyllid i dalu am ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar adeg o alw uwch am amrediad o wasanaethau cyhoeddus.


Gordewdra

- Yn 2018, roedd mwy na chwarter y plant yng Nghymru dros eu pwysau neu’n ordew, ac mae’r gyfran hon wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Yn 2018, roedd bron i 60% o oedolion yng Nghymru dros eu pwysau neu’n ordew, ac mae hyn wedi tueddu am i fyny, gan ragweld y bydd rhyw 64% o oedolion yng Nghymru dros eu pwysau neu’n ordew erbyn 2030.
- Mae Mynegai Màs y Corff (BMI) uchel yn un o’r ffactorau risg arweiniol i Flynyddoedd Oes wedi’u haddasu ar gyfer Anabledd (DALY), ac mae’n 1.6 gwaith cyfraniad y defnydd o alcohol, a dyma’r ffactor risg arweiniol ar gyfer Blynyddoedd o Fyw ag Anabledd (YLD). Ynghyd â bod yn broblem arwyddocaol i iechyd hirdymor, os bydd cynnydd yn y tueddiad am i fyny mewn gordewdra yng Nghymru bydd hynny’n debygol o roi straen uniongyrchol ar adnoddau’r GTA drwy ofynion amlach i fynd i helpu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gael mynediad i eiddo/cartrefi i helpu pobl sydd wedi syrthio neu wedi dioddef ataliad ar y galon/anadl i godi neu i gael eu cludo i’r ysbyty oherwydd eu maint.

# Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol / Fframwaith Tân

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’r Ddeddf yn rhestru saith nod llesiant ar gyfer Cymru gyfan, a gellir eu gweld yn y ffigwr isod. Bwriad y nodau hyn yw hyrwyddo ymdeimlad o bwrpas cyffredin, ac i annog pobl a sefydliadau i weithio gyda’i gilydd i helpu i gyflawni’r nodau er lles cenedlaethau’r dyfodol.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd ar wefan Swyddfa Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhoi gwybodaeth i helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu ‘teithiau’ tuag at wella llesiant pobl yng Nghymru. Mae’r diogelwyr taith yn cynnwys enghreifftiau a chamau ymarferol y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddatblygu eu hamcanion llesiant eu hunain. Mae’r Awdurdod wedi defnyddio’r diogelwyr taith i fapio ei saith amcan llesiant yn ôl nodau llesiant cenedlaethol Cymru, gan helpu i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gynaliadwy. Hefyd, wrth osod ei amcanion, mae’r Awdurdod wedi ystyried y Fframwaith Tân Cenedlaethol, sy’n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ystyried y canlynol:




- Atebolrwydd i’r cyhoedd;
  - Darparu esboniad clir o hyd a lled y gwaith (e.e. diffodd tanau, diogelwch tân, ayyb) a chost a maint cymharol pob un;
  - Amcanion y Gwasanaeth, y cynnydd a wnaed wrth eu cyflawni, ac unrhyw gyfyngiadau ar gynnydd pellach.
- Cynllunio ar gyfer y tymor canolig a’r tymor hir;
  - Ystyried y negeseuon a amlinellir yn y Fframwaith Tân Cenedlaethol;
  - Deall y proffiliau risg amrywiol sydd gan gymunedau;
  - Ystyriaeth i heriau ariannol parhaus;
  - Cyfrannu at y nodau llesiant;
  - Deall meysydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn ehangach mewn cymunedau;
  - Ystyriaeth i farn dinasyddion, yn seiliedig ar ymgysylltu’n deg a chytbwys.
- Cysylltiadau clir a thryloyw â chynlluniau gwella;
  - Darparu adroddiadau agored ar berfformiad, gan gynnwys adrodd ynghylch asesiadau cymheiriaid ac adroddiadau’r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried gan sefydliadau'r sector cyhoeddus. Un o'r argymhellion allweddol oedd y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus, wrth osod eu hamcanion, "Osod gweledigaeth hirdymor, ystyried sut olwg sydd ar lwyddiant i'r amcan hwnnw mewn pump, deg, pymtheg, ugain a phum mlynedd ar hugain; a nodi cerrig milltir a mesurau priodol – gan ystyried y cerrig milltir cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru". Mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod yr egwyddor hon wedi'i chynnwys fel rhan o'i gynlluniau hirdymor. Mae'r heriau a gyflwynwyd gan argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys llai o benderfyniadau drwy ddulliau 'seilo'; uno nodau cydraddoldeb â'r amcanion craidd; ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth o fewn caffael amgylcheddol; a chynllunio i atal yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau.

Mae'r argymhellion hyn yn uchelgeisiol ac maent yn darparu meincnod ar gyfer esblygiad a thwf yn y modd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau ac i gyflawni ei weithrediadau o ddydd i ddydd. Maent yn gyfle i ddatblygu strategaeth flaengar, gydag integreiddio agosach a synergedd rhwng yr asiantaethau yng Ngogledd Cymru. Drwy gael persbectif hirdymor a chynnwys rhanddeiliaid a chyfathrebu â nhw, mae'r Awdurdod yn gobeithio gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer heddiw a fydd hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn llesiant gwell i genedlaethau'r dyfodol.

# Datganiad Llesiant

Rhaid i'r Awdurdod "ddatblygu'n gynaliadwy" er mwyn cynorthwyo i sicrhau'r gwelliant hwnnw ym mhoblogaeth Cymru ar gyfer y dyfodol. Datblygwyd yr amcanion sydd yn y cynllun hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a'u dyfeisio yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda phenaethiaid adrannau a gweithdai gyda'r Aelodau.

Datblygwyd yr amcanion hefyd yn unol â'r "**pum ffordd o weithio**" a argymhellir, fel y diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Edrych i'r **tymor hir** fel nad yw'r hyn sy'n digwydd nawr ddim yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y newidiadau demograffig a ragwelir sef poblogaeth sy'n heneiddio a thyfu, a'r cyfyngiadau ariannol y disgwylir y byddant yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.

- Mae'r Awdurdod wedi cadw'r gwaith ataliol yn ganolog, gan gydnabod bod **atal** tanau a sefyllfaoedd peryglus eraill rhag digwydd yn gwneud mwy o synnwyr nag ymateb yn unig, ac y gallent helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion.


- Gan ddilyn **dull integredig**, ystyried sut gallai ei amcanion llesiant ei hun effeithio ar ei gilydd ac ar y gwaith o gyflawni nodau llesiant Cymru.


- Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yng Ngogledd Cymru, a'u hannog i **gymryd rhan** yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori'n eang ac wedi ceisio barn y cyhoedd a chynrychiolwyr grwpiau penodol wrth benderfynu ar ei amcanion.

- Gweithio'n **gydweithredol** ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion, ac fel arall, i helpu eraill i gyflawni eu hamcanion nhw. Mae'r Awdurdod wedi parhau i feithrin perthnasoedd gwaith rhagweithiol â chymunedau ac amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynllunio a chydweithredu ar wahanol lefelau a thrwy wahanol fforymau.

# Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fod yn aelod gweithredol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r byrddau statudol hyn yn dod â sefydliadau at ei gilydd i gynllunio a chydweithio ar y gwaith o wella rhagolygon cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau o bobl yn eu hardal yn y dyfodol.




Mae'r Awdurdod yn aelod statudol o'r pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru, sef Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, a Gwynedd a Môn.

Fe wnaeth y Byrddau Gwasanaethau Lleol gyhoeddi eu cynlluniau llesiant cyntaf yn 2018 a nodi cyfanswm o 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru, a chafodd y rhain eu grwpio dan benawdau allweddol, sef Cymuned; Tai; Addysg; Addysg Iechyd; Iechyd; Dinasyddion Cyfrifol; Llesiant; Amgylchedd; Cyfrifoldeb Amgylcheddol; Prosiectau Amgylcheddol Cymunedol; Twristiaeth; Economi; Seilwaith; Sgiliau ar gyfer Gwaith; Presgripsiwn Cymdeithasol; ac Iechyd y Gweithlu.




**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

**Adroddiad Blynyddol 2020/2021 - Hunanfyfyrdod ar y flwyddyn.**

**Croeso i'n trydydd Adroddiad Blynyddol.** Yr adroddiad hwn yw ein hunanfyfyrdod ar y gwahaniaeth yr ydym wedi ei greu yn ystod trydedd flwyddyn ein cynllun lles 5 mlynedd. Mae adroddiad blynyddol y hanfodol ar gyfer sicrhau ein bod ni fel Bwrdd yn atebol i'r cyhoedd ac y gallwn hunanasesu yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni, herio ein hunain ynghylch a ydym yn gwneud gwahaniaeth ai peidio ac ystyried beth allwn e ddysgu er mwyn gwella i'r dyfodol. Mae ein holl waith wedi ei alinio â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r 5 ffordd o weithio.

Gallwch fynd i'n gwefan i ddysgu mwy amdanom fel Bwrdd ac i ddysgu mwy am ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ac ail ein cynllun.




Yn 2022/23, bydd y Byrddau'n adolygu eu hasesiadau llesiant ac yn ymgynghori ynghylch cynnwys eu cynlluniau llesiant diweddaredig.

Mae'r Byrddau'n cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac mae'r rhai diweddaraf yn ymdrin â'r flwyddyn 2020/21. Mae'r rhain yn amlinellu cynnydd mewn perthynas ag amcanion pob Bwrdd, a'r heriau a wynebir wrth gyflawni'r rhain yn ystod y pandemig. Mae effeithiau COVID-19 wedi newid y tirlun yn llwyr i ddinasyddion unigol, busnesau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam**

Mae'r pandemig wedi golygu bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam wedi ymgorffori ffyrdd newydd o weithiau, gan gynnwys:

- cymunedau'n dod at ei gilydd i ymateb i'r argyfwng, gan ddangos cryfder a chadernid dwfn
- parhau i ddatblygu prosiectau i alluogi cymunedau i adfer yn gryf ar ôl y pandemig, a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn ffynnu
- cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint i edrych beth fydd ei angen ar gymunedau gan wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn atgyfnerthu eu cadernid
- adolygiad o ddull y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o reoli'r amgylchedd a lleihau carbon **-*"*** *Rydym wedi gweld gostyngiad mewn teithiau oherwydd bod pobl yn gweithio gartref fwy, cymunedau'n archwilio eu hamgylchedd lleol ar gyfer buddion corfforol a llesiant, sydd wedi arwain at welliant yn ansawdd yr aer lleol gan fod llai o gerbydau ar y ffyrdd a llai o dagfeydd traffig. Gyda mwy o bobl yn defnyddio'r amgylchedd naturiol, boed yn lleol neu mewn mannau hardd adnabyddus, mae hynny wedi golygu mwy o heriau a phwysau, gan gynnwys hygyrchedd i'r mannau gwyrdd sydd ar gael a mwy o bwysau ar ein cefn gwlad megis parcio, sbwriel, gwersylla gwyllt, tanau coedwigoedd a thipio anghyfreithlon*  ***".***

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei dylanwadu gan bandemig byd-eang y coronafeirws, ac effeithiodd hynny ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych mewn sawl ffordd:

- cafodd cyfarfodydd mewnol y bwrdd a gwaith prosiect eu canslo wrth i'r sylw strategol a gweithredol symud tuag at gynlluniau argyfwng a pharhad busnes o ganlyniad i'r pandemig
- yn dilyn llacio'r cyfnod clo cyntaf, adolygwyd y blaenoriaethau i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol i'r gymuned leol a'r newid syfrdanol yn anghenion pobl o ddydd i ddydd. Daethpwyd i'r casgliad fod y blaenoriaethau cyfredol yn dal yn wir, ond ychwanegwyd meysydd ffocws newydd yr oedd y Bwrdd o'r farn y byddent yn gymorth i gymunedau adfer ar ôl y pandemig.

- Fe wnaeth *Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC)* arwain ar gymorth dementia drwy eu rhaglen gymunedol ar ymwybyddiaeth o ddementia. Ail-bwrpaswyd y gwaith o gyflawni'r rhaglen i ystyried y tirlun o ran COVID-19, gan gyflwyno digwyddiadau rhwydweithio ar-lein a hyfforddiant e-ddysgu. Mae DVSC wedi parhau i ddarparu ei wasanaethau ar-lein, o ran cyfarfodydd rhwydwaith a hyfforddiant ar-lein. Buont yn gweithio'n agos â grwpiau gweithredu lleol a'r gymuned i ailddatblygu a/neu ddarparu dulliau eraill o gyflwyno rhaglenni, gwasanaethau a gweithgareddau cyfredol.
- *Lle - Cefnogi Cadernid Amgylcheddol* roedd y cynllun yn ceisio annog cymunedau i leihau eu heffaith amgylcheddol a dathlu eu llwyddiant wrth wneud hynny. Oherwydd COVID-19, rhoddwyd saib ar y cynllun yn ystod 2020 ond cafodd ei ail-lansio yn 2021.

**<u>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn</u>**

Mae delio gyda'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus i gymunedau, a phwysigrwydd cydweithio rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at broblemau sy'n bodoli eisoes, e.e. problemau iechyd meddwl, cadernid cymunedol, gor-dwristiaeth, ail gartrefi a'r bygythiadau i'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn ei asesiad llesiant yn ôl yn 2017, roedd y Bwrdd wedi blaenoriaethu chwe maes, sef y Gymraeg; cartrefi i bobl leol, effaith tlodi ar lesiant cymunedau; effaith newid yn yr hinsawdd ar lesiant cymunedau; iechyd a gofal i oedolion; a lles a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Yn y bôn, mae'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd wedi canobwyntio ar adferiad cymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried eu rôl yn yr adferiad, gan ganolbwyntio ar gadernid cymunedol. Bu holl aelodau'r Byrddau'n cynnal dadansoddiad sefyllfaol i wella dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio fwyfwy ar gymunedau ers yr argyfwng. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2021 i drafod y materion hynny ymhellach, gan gynnwys effaith ail dai ar gymunedau, problemau iechyd meddwl a diweithdra ymysg pobl ifanc.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint**

Roedd y pandemig a'r ffaith fod staff wedi cael eu symud wedi golygu oedi wrth lunio Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint 2020/21. Mae holl sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi cefnogi unigolion a chymunedau mewn ffyrdd na ellid bod wedi'u rhagweld pan gafodd y Cynllun Llesiant ei gyhoeddi. Mae'r adferiad ar ôl pandemig Covid-19 yn parhau, drwy weithio mewn partneriaeth ac ymuno â rhai ffrydiau gwaith gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam.

Parhaodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint i weithio tuag at ddwy brif flaenoriaeth, a oedd yn parhau o'r Cynllun Llesiant blaenorol:

**Diogelwch Cymunedol**

- Cafodd ail Adolygiad Lladdiadau Domestig Sir y Fflint ei gwblhau a'i anfon at y Swyddfa Gartref. Erbyn hyn, mae Bwrdd Sir y Fflint yn cymryd camau dilynol yn y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod yr holl gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad yn cael eu cwblhau
- Cafodd dioddefwyr cam-drin domestig eu hatgyfeirio at MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg), ac o ganlyniad i'r atgyfeiriadau hynny cawsant gymorth, megis gwella diogelwch yn y cartref drwy'r gwasanaeth Wardeiniaid Cymdogaeth.
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Cyflwynwyd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, ac mae rhaglen yn parhau. Nod yr hyfforddiant yw cynyddu'r gallu i adnabod a rhoi cefnogaeth i ferched sy'n profi trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed – Dechreuwyd grwpiau agored i niwed gweladwy i ganfod a chefnogi unigolion agored i niwed gweladwy yn Sir y Fflint sydd ag anghenion cymhleth o ran camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, yn enwedig rhai sy'n ddigartref neu'n cysgu allan.

**Byw'n Iach ac Annibynnol**


- Cwblhau'r Cynllun Gofal Ychwanegol yn Nhreffynon - Plas yr Ywen, gan ddarparu 55 o fflatiau newydd. Dyma'r pedwerydd Cynllun Gofal Ychwanegol yn Sir y Fflint
- Fel ymateb cynnar i bandemig COVID-19, roedd y Cyngor wedi cael gafael ar gartref gofal gwag yn Nhreffynnon ac wedi'i adnewyddu, gan ei agor fel cartref gofal dros dro o'r enw Tŷ Treffynnon, i ddarparu llety brys i bobl hŷn, yn enwedig y rhai'n gadael yr ysbyty. Cafodd y sector annibynnol ei gefnogi hefyd i sefydlu cyfleuster 'camu i lawr' dros dro i alluogi pobl i symud yn ddiogel allan o welyau ysbyty wrth i'w hiechyd wella
- Roedd gweithredu'r Model Cymorth Gofalwyr Maeth – 'Mockingbird', y cyntaf yng Nghymru, yn darparu model estynedig o ofal maeth pan fo "Teulu Mockingbird" o nifer o ofalwyr maeth cydgysylltiedig yn darparu gofal seibiant i'w gilydd, cymorth cymheiriaid ac yn dod at ei gilydd mewn gweithgareddau cymdeithasol neu hyfforddiant ar y cyd er enghraifft, gyda chefnogaeth gweithiwr cyswllt.

# Amcanion Corfforaethol

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol 2021-24 lle nododd ei saith amcan gwella a llesiant. Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i barhau i fynd ymlaen â'r un amcanion yn 2022/23.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol, a sut mae'n bwriadu cyflawni hyn drwy saith amcan hirdymor. I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith amcan, mae camau byrdymor, mwy manwl, wedi'u cysylltu â'r saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r diogelwyr taith a ddisgrifir uchod.

Mae'r Cynllun yn ceisio esbonio'n gyhoeddus beth yw bwriadau strategol yr Awdurdod, a gwahodd sylwadau ac awgrymiadau. Mae hefyd yn darparu sail ar gyfer yr asesiad perfformiad nesaf (o'r cyflawniadau yn 2021/22) a gyhoeddir ym mis Medi 2022.



## Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar gynorthwyo pobl i fod yn ddiogel, boed nhw gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd neu yn y gymuned, gan dargedu'r adnoddau at y rhai sydd â'r risg mwyaf.

Gartref yw'r lle y mae pobl fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân, ac mae hyn yn digwydd er eu bod yn gyfarwydd â chynllun yr adeilad ac maent fel arfer yn agos at o leiaf un llwybr dianc.

Yn ôl dadansoddiadau o anafusion tanau blaenorol, gall amrywiaeth o ffactorau roi pobl mewn mwy o risg o danau damweiniol yn y cartref, er enghraifft, eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), anabledd neu gyflwr meddygol sy'n cyfyngu arnynt, bod ar eu pen eu hun ar adeg y tân, a bod dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau.

Po fwyaf o ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig â rhywun, y mwyaf o berygl y bydd yn dioddef tân yn y cartref. Heblaw am effaith emosiynol a cholled bersonol sy'n gysylltiedig â thanau yn y cartref, mae effaith economaidd hefyd, er enghraifft, cost atgyweirio, colli amser gwaith, cost ymateb brys, gofal meddygol, ail-gartrefu a gofal maeth, yr effaith ar werth eiddo a pha mor ddeniadol yw'r ardal ar gyfer sefydlu busnesau newydd.

Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fydd tanau'n digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac iachach, ond byddant hefyd yn fwy cadarn yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae effaith lygrol tanau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro, yn atal pobl rhag gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi cymorth i reolwyr safleoedd annomestig i'w helpu i leihau'r risg o dân ac i gydymffurfio â deddfwriaeth, tra'n canolbwyntio ar gyfraniad hirdymor y camau gweithredu a gymerir heddiw a'u goblygiadau i genedlaethau'r dyfodol. Bydd yr Awdurdod hefyd yn parhau i ymwneud yn gydweithredol ac integredig ag asiantaethau eraill, megis Heddlu Gogledd Cymru, i gefnogi 'Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru' Llywodraeth Cymru.

## Amcan 2: Parhau i weithio’n gydweithredol i gynorthwyo cymunedau i gynyddu eu cadernid.

Mae’r risgiau sy’n wynebu cymunedau yn dirlun sy’n newid ac yn barhaus, ac mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda phobl i fod yn fwy cadarn, ac i’w cefnogi i wneud hynny. Nid yw cadernid cymunedol yn golygu bod asiantaethau’n gwneud hynny ar eu rhan. Mae’n golygu cefnogi a chymell o’r tu mewn i’r gymuned, a’u helpu i ymrwymo i’r syniad o helpu eu hunain a bod yn gadarn yn ystod argyfwng, megis llifogydd.

Mae gweithio â phartneriaid yn bwysig i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn. Mae’r Awdurdod yn gweithio’n agos ag asiantaethau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a chynghorau sir ar feysydd targedol i gynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysgu, gan eu galluogi i fod yn fwy cadarn os oes argyfyngau. Mae cymunedau’n cael gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth pan fo angen er mwyn helpu i’w grymuso, ac maent yn cael cymorth a sicrwydd er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a lleihau effaith digwyddiadau sy’n tarfu.

Mae’r ffordd y mae’r Awdurdod yn gwneud gwaith ataliol, sef cyngor ynghylch diogelwch tân, addysg ac ymyriadau wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer a difrifoldeb y digwyddiadau brys yr awn atynt ledled Gogledd Cymru. Mae’r dull hwn yn cynnwys gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl. Mae atal tanau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau yn gymorth i osgoi neu leihau’r gost ddynol, colledion dan yswiriant a heb yswiriant, cost atgyweirio a cholli cynhyrchiant, a phan mae ardal yn llai deniadol i fewnfuddsoddiadau.

Mae gwella diogelwch trigolion a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyrryd, yn ogystal â chanfod cyfleoedd i leihau troseddu megis llosgi bwriadol, yn gallu dod â manteision economaidd i unigolion, cymunedau a busnesau.

## Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Oherwydd yr ansicrwydd ariannol[2] a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran ei allu i gynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae esboniad manylach o'r cyfraniadau ariannol ar gael yn atodiad A ar dudalen 36 o'r Cynllun hwn.

Rhagwelir y bydd 7.5 miliwn yn fwy o bobl 65 oed a hŷn yn y Deyrnas Unedig ymhen 50 mlynedd. Gall poblogaeth yn heneiddio arwain at lai o bobl o oedran gweithio i gefnogi'r bobl sydd o oedran pensiwn.  Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud hefyd "er bod poblogaeth fwy o faint yn cynyddu maint y gweithlu a'i gapasiti i gynhyrchu, mae hefyd yn cynyddu'r pwysau a'r galw am wasanaethau megis addysg, gofal iechyd a thai".

Felly, mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân sy'n cyrraedd y safonau ffitrwydd angenrheidiol, yn ogystal â'r posibilrwydd o ehangu swydd diffoddwyr tân a allai gynyddu'r cyflog yn sylweddol.

Drwy resymoli costau'r Awdurdod eu hun, a chanfod ffordd gytbwys o ariannu'r Gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd hyn yn gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cadarn rhag newidiadau demograffig a newidiadau eraill.

---

[2] Gweler (enghreifftiau) : "Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16" Archwilydd Cyffredinol Cymru.
https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/445A2016-Financial-resilience-cym.pdf
"Future pressures on Welsh public services", Mark Jeffs, Wales Public Services 2025.  http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/03/Mark-Jeffs-WPS2025-Summary-Report1.pdf
"Welsh budgetary trade–offs to 2019–20", D. Phillips and P. Simpson, The Institute for Fiscal Studies, Sept. 2016.
https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/docs/IFS%20report%20R120.pdf

## Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, ac er ei fod yn cyrraedd mwy o bobl, mae'n cydnabod bod modd gwella hyn bob amser.

Mae deall cymunedau, gwrando arnynt a'u cynrychioli yn rhan hollbwysig o waith yr Awdurdod. Mae cymdeithas yn newid felly mae angen newid y ffordd o gyfathrebu â phobl er mwyn sicrhau bod negeseuon yr Awdurdod yn cyrraedd pawb, gan gynnwys grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Drwy lais corfforaethol cryfach, bydd mwy o bobl yn deall hyd a lled y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod, ynghyd â'i uchelgeisiau i wella diogelwch a llesiant ledled Gogledd Cymru.

Drwy drefniadau cyfathrebu gwell, megis Workplace Facebook, caiff gwybodaeth ei rannu gyda staff ar adegau priodol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at wella gwasanaethau drwy sianeli diogel ac agored.

Drwy weithio'n gydweithredol â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft, Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau lleol, gall yr Awdurdod sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang.

Drwy gadw'r cytundebau rhannu gwybodaeth presennol yn gyfoes, a thrwy geisio sefydlu cytundebau newydd pan fo'n briodol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru.

## Amcan 5: Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bwysig denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n bodoli yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Ni ellir gorbwysleisio hyn, felly mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i ddiwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod; sef ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant; awydd i geisio rhagori; amddiffyn cymunedau a chydnabod pa mor werthfawr yw ei bobl.

Drwy Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth, bydd yr Awdurdod yn cefnogi ffyrdd newydd o ddefnyddio sgiliau a phroffesiynoldeb y gweithlu.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gweithio ystwyth, a gweithredu'r trefniant gweithio hwn ar ôl y pandemig, yn sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gallu gweithredu'n fwy hyblyg a bod yn fwy cadarn pan fydd yn wynebu ffactorau allanol a allai effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gweithlu sydd wedi'u datblygu a'u hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel yn fuddiol i bobl Cymru, tra bydd fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn gymorth hefyd i reolwyr gwrdd â gofynion eu swyddi.

Drwy ddatblygu mentrau lleihau absenoldeb, a chanolbwyntio ar hybu iechyd y staff, mae'r Awdurdod yn cefnogi dull cyfannol o wella llesiant y gweithwyr.

Drwy wasanaethau iechyd galwedigaethol rhagweithiol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ganfod a mynd i'r afael ag anafiadau diwydiannol, straen a phethau eraill sy'n achosi absenoldeb salwch, yn ogystal ag i hybu bywyd iach. Mae pob gweithiwr yn cael cynnig arweiniad a chyngor gan ymgynghorwyr ffitrwydd corfforol ar ddewisiadau ffordd o fyw, ffitrwydd a materion rheoli pwysau, ac maent yn cael cynnig defnyddio cyfleusterau ffitrwydd lleol.

Hefyd, mae darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn gymorth i'r gweithwyr ddelio'n rhagweithiol â phroblemau personol a/neu broblemau'n ymwneud â'r gwaith a allai amharu ar berfformiad eu gwaith, ar eu hiechyd a'u llesiant.

## Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau’r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd.

Yn 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan ei huchelgais i sicrhau sector cyhoeddus sy’n garbon niwtral erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth gyhoeddi Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy’n ceisio cefnogi’r sector cyhoeddus i bennu man cychwyn, monitro ac adrodd ynghylch cynnydd i gyfeiriad carbon-niwtraliaeth.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo rôl bwysig yn amddiffyn yr amgylchedd ac yn lleihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae wedi ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol, ac i ystyried hynny ym mhob maes o'i waith o atal tân i dechnoleg ecogyfeillgar.

Mae’r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o’i swyddogaeth yn helpu pobl Gogledd Cymru i ddeall effaith y tywydd a’r newid hinsawdd, a’r heriau a ddaw gyda hynny. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo swyddogaeth arweinyddol ei hun o ran ei weithrediadau ei hun, gan gynnwys y modd mae’n defnyddio adnoddau.

Yn 2013, fe wnaeth yr Awdurdod ailymrwymo i’w bolisïau ynni ac amgylcheddol ac i raglen o welliannau yn y modd mae’n defnyddio tanwydd, cyfleustodau ac adnoddau, y modd mae’n rheoli gwastraff, ac yn y modd mae’n hybu bioamrywiaeth.

Mae’r Awdurdod yn ymrwymo i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol er mwyn bod yn sefydliad sy’n fwy ymwybodol a chyfrifol yn amgylcheddol, drwy waith ataliol, gwaith mewn partneriaeth, a chefnogi pobl a chymunedau i fod yn fwy cadarn.

## Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

Mae gwerth cymdeithasol yn derm a ddefnyddir wrth ddisgrifio'r buddion cymharol i bobl a chymunedau yn sgil dewis rhai camau gweithredu neu gyflwyno newidiadau. Mae ychwanegu gwerth cymdeithasol yn golygu ystyried a oes modd i'r hyn sy'n cael ei gynnig gael ei wneud yn wahanol er mwyn gwella bywydau pobl.

Mae'r Awdurdod eisoes wedi gwneud nifer o weithgareddau sy'n gwneud mwy na dim ond cyflawni'r dyletswyddau statudol sy'n ofynnol. Er enghraifft, mae prosiect y Ffenics yn mynd y tu hwnt i addysgu pobl ifanc am ddiogelwch tân a chanlyniadau llosgi bwriadol, drwy fuddsoddi ynddynt fel dinasyddion ac fel aelodau o'u cymuned leol. Hefyd, er nad yw diogelwch y ffyrdd yn un o gyfrifoldebau statudol yr Awdurdod, gall ddefnyddio proffil cyhoeddus y diffoddwyr tân i ychwanegu gwerth cymdeithasol drwy apelio at y rhai sydd â mwy o risg o fod yn anafusion mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ond nad ydynt o bosib yn agored i rai mathau eraill o negeseuon diogelwch.

Mae sawl ffordd o ychwanegu gwerth cymdeithasol. Mae'n golygu sicrhau bod yr Awdurdod, wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, yn ystyried mwy na'r gost yn unig. Mae angen ystyried yr agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ochr yn ochr ag ystyriaethau gwerth am arian yn ystod prosesau tendro. Drwy wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei brosesau caffael, gall yr Awdurdod sicrhau budd cymdeithasol am yr arian mae'n ei wario.

## Camau tuag at gyflawni amcanion corfforaethol yr Awdurdod

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Un | Rydyn ni’n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru | • rhoi cymorth i bobl atal tanau damweiniol mewn cartrefi, ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o’r fath yn digwydd;<br>• cynnal 10,000 o archwiliadau diogel ac iach, naill ai wyneb yn wyneb neu’n rhithiol, erbyn 30 Medi 2022, ac 20,000 erbyn 31 Mawrth 2023, gyda 25% o leiaf o’r rheini yn cael eu cynnal i gartrefi a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall;<br>• cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a’r marwolaethau a’r anafiadau cysylltiedig;<br>• gwreiddio arferion diogelu yn y gweithgareddau o ddydd i ddydd, a sicrhau bod y rhain yn gyson â pholisïau a chyfarwyddyd cenedlaethol;<br>• parhau i ddatblygu a chynnal ymyriadau a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithgareddau targedol;<br>• gweithio â sefydliadau sy’n cefnogi pobl sy’n agored i niwed;<br>• rhoi’r datblygiadau a’r uwchraddiadau technolegol diweddaraf ar waith i wella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch;<br>• gweithredu canfyddiadau’r ymchwiliad a’r adolygiad i Dân Tŵr Grenfell, er mwyn lleihau’r risg petai trychineb o’r fath yn digwydd yng Ngogledd Cymru;<br>• cyflwyno mwy o gerbydau trydan ecogyfeillgar i hybu gwell ansawdd aer tra’n lleihau allyriadau carbon; |


| | | |
|---|---|---|
| | | • cyflawni mewn perthynas â'r strategaeth ar gyfer cael system gorchymyn a rheoli newydd, sydd i fod i ddigwydd yn 2022-2026. Bydd hyn yn sicrhau bod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r Gwasanaeth mewn ymateb brys;<br>• hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth o iechyd a lles i staff y Gwasanaeth, a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a ffitrwydd i ddarpar recrwitiaid;<br>• cyflwyno'r hyfforddiant gloywi ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i'r holl staff, gyda hyfforddiant helaethach i staff diogelwch cymunedol rheng flaen. |

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Dau | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Parhau i weithio'n gydweithredol i helpu cymunedau i wella eu cadernid | • gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr/porwyr, i ganfod lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd â mwy o risg o danau awyr agored/glaswelltir, ac i helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys;<br>• parhau i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun rhanbarthol amlasiantaethol ar gyfer tanau awyr agored;<br>• meithrin perthynas â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG), a grwpiau llifogydd mewndirol ac achub o ddŵr er mwyn gwella cyd-alluoedd yr asiantaethau i helpu pobl y mae llifogydd yn effeithio arnynt;<br>• gweithio'n gydweithredol â chymunedau sydd â diffoddwyr tân ar-alwad i wella cadernid y gofal tân yn eu hardaloedd;<br>• cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella rhagor ar y dulliau cyfathrebu ac integreiddio â phartneriaid. |


| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Tri | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael | • darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni;<br>• parhau i fwrw ymlaen ag arbedion effeithlonrwydd mewnol a pharhaus;<br>• monitro y cynnydd o ran ailintegreiddio gwasanaethau ariannol a oedd yn arfer bod ar gontract allanol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>• adeiladu ar y mesurau cyfredol i fonitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiadau;<br>• datblygu model mwy hyblyg ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol i gefnogi anghenion diffoddwyr tân ar-alwad;<br>• canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd yr argaeledd a ddarperir drwy'r System RDS (diffoddwyr tân ar-alwad);<br>• adolygu'r trefniadau Rheoli Parhad Busnes, a gwella gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau mawr;<br>• parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a wneir mewn partneriaid â sefydliadau eraill;<br>• datblygu system effeithiol i reoli asedau, sydd o blaid dyrannu adnoddau yn y modd gorau posibl;<br>• gweithredu canfyddiadau'r ymchwiliad a'r adolygiad o Dân Tŵr Grenfell er mwyn lleihau'r risg y gallai trychineb o'r fath ddigwydd yng Ngogledd Cymru. |

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Pedwar | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
| | Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid | • codi ymwybyddiaeth o danau bwriadol, helpu i'w hatal, a gostwng nifer y tanau bwriadol a'r galwadau diangen;<br>• ymgysylltu â chyflogwyr lleol, cymunedau a'r rhai y mae tân ac argyfyngau eraill yn effeithio'n uniongyrchol arnynt er mwyn datblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd ataliol;<br>• hybu ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod y meysydd sydd â'r risgiau mwyaf yn cael eu blaenoriaethu, er enghraifft, tanau a achosir drwy goginio;<br>• sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth presennol yn gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo hynny'n briodol;<br>• cynnal arolwg iechyd a llesiant o'r holl staff, a hyrwyddo gweithgareddau ymhob rhan o'r Gwasanaeth;<br>• cwblhau adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol;<br>• adrodd ynghylch y defnydd o ynni, a lleihau carbon yn adeiladau GTAGC, gan gynnwys cronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer prosiectau lleihau carbon yn y dyfodol;<br>• datblygu arolwg generig / unigol ar-lein, sy'n adlewyrchu pob un o'r saith amcan corfforaethol y gellid eu defnyddio i gofnodi adborth gan bob rhanddeiliaid am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod;<br>• gweithredu adolygiad dan arweiniad staff i brofiadau staff a gyflogir o dan y System RDS ( diffoddwyr tân ar-alwad );<br>• gweithio i gytuno ar gynllun gweithredu i ganolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol yr arolwg staff Teulu Tân mewn perthynas â newid diwylliannol a newid arfaethedig i strwythur y staff. |

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Pump | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg | • recriwtio, datblygu a chynnal gweithlu sy'n fedrus iawn, yn frwdfrydig ac yn ddwyieithog;<br>• datblygu arferion cyflogaeth sy'n ceisio cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai, fel arall, ei chael yn anodd cael gwaith, a blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau;<br>• mabwysiadu modelau gweithio ystwyth a hyblyg, a fydd yn cyfrannu at gymdeithas carbon isel drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio ar gyfer gwaith;<br>• parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth yn y Gwasanaeth;<br>• mabwysiadu dull mwy cyfannol o wella llesiant gweithwyr, parhau i fuddsoddi mewn gwaith lleihau absenoldebau, a chanolbwyntio ar hybu iechyd;<br>• adnewyddu ardystiad y Wobr Iechyd Corfforaethol Platinwm;<br>• parhau i gyfrannu at 'Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth';<br>• gwella ffyrdd o gefnogi staff i fod yn arweinwyr y dyfodol;<br>• cyflwyno strwythur newydd ar gyfer y staff, a fydd yn gymorth i gynyddu nifer y staff mewn cymunedau. |

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Chwech | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd | • sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod;<br>• archwilio cyfleoedd i leihau pecynnu plastig ar nwyddau sy'n dod i'r Gwasanaeth;<br>• canfod ffyrdd o ddefnyddio cyflenwadau dŵr mor gyfrifol â phosib;<br>• chwilio am gyfleoedd i leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi gan yr Awdurdod;<br>• canfod ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd;<br>• gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i ddeall newid hinsawdd o safbwynt rhanbarthol;<br>• gweithio gyda thirfeddianwyr i ostwng nifer yr achosion o danau yn yr awyr agored, a'u hannog i roi gwybod am losgi dan reolaeth;<br>• cael unedau achub technegol newydd er mwyn cael mwy o effeithlonrwydd tanwydd a llai o allyriadau o injanau<br>• ystyried y pum argymhelliad a amlinellir isod gan Archwilio Cymru yn eu hadolygiad o gynnydd yr Awdurdod tuag at leihau ei allyriadau carbon<br>    ○ datblygu man cychwyn cywir ar gyfer carbon<br>    ○ datblygu cynllun penodol ar gyfer lleihau carbon sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i fod yn garbon-niwtral ac i gwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru<br>    ○ diwygio'r polisi ar gyfer y Rhaglen Amnewid Cerbydau, a chytuno ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer amnewid cerbydau diesel a gwella'r seilwaith gwefru ledled ardal y llu |

| | | |
|---|---|---|
| | | ◦ ymgysylltu a chynnwys staff yn y gwaith o gynllunio i leihau allyriadau carbon er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd perchnogaeth ar gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella, ac yn cyfrannu'n llwyr at gyflawni camau gweithredu allweddol<br>◦ cryfhau'r modd y mae cynnydd wrth gyflawni camau i leihau allyriadau carbon a chyflawni mewn perthynas â thargedau Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen ac yn arwain at welliannau. |

| Cysylltiad â Nodau Llesiant/Ffyrdd o Weithio | Amcan Saith | Rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn drwy: |
|---|---|---|
|  | Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael | • parhau i chwilio am gyfleoedd i ychwanegu gwerth cymdeithasol at gymunedau;<br>• datblygu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy;<br>• archwilio opsiynau ar gyfer caffael lleol, i'w cyflawni drwy gydweithio'n genedlaethol/rhanbarthol, a hynny o fewn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau golau glas eraill;<br>• sicrhau bod y gwaith o gaffael cyfarpar gweithredol newydd yn cynnwys ystyried sut i waredu ar 'ddiwedd oes';<br>• datblygu rhagor ar gyfleoedd i weithio â'r sefydliad elusennol 'Fire Aid' i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ailgylchu pan fo modd;<br>• datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth o gaffael;<br>• sicrhau bod fframweithiau caffael a chontractau yn mesur gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn ystod prosesau tendro;<br>• hybu gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd o fewn y Gwasanaeth. |

## Cysylltu â ni:

| | |
|---|---|
| yn ysgrifenedig: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| ar y ffôn: | 01745 535250 |
| drwy e-bost: | CorporatePlanning.Helpdesk@tangogleddcymru.llyw.cymu |
| drwy ein gwefan: | www.tangogleddcymru.llyw.cymru |


Mae'r Awdurdod yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith yr Awdurdod. Rhoddir ystyriaeth i'r holl sylwadau a ddaw i law, cyn cwblhau'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion corfforaethol ar gyfer y dyfodol ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân yn y cyfeiriad uchod.

# Atodiad A – Cyfraniadau'r Awdurdodau Cyfansoddol 2021/22 – 2022/23

| Awdurdod | 2021/2022 Cyfraniad £ | Cynnydd yn y cyfraniadau £ | Cynnydd % | 2022/2023 Rhacamcanol £ | Poblogaeth | Poblogaeth % | Cynnydd yn y cyfraniadau £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,230,520 | 225,015 | 3.75% | 6,631,214 | 118,320 | 17% | 400,694 | 6.43% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,689,651 | 96,707 | 2.69% | 3,915,486 | 69,864 | 10% | 225,835 | 6.12% |
| Cyngor Gwynedd | 6,596,692 | 232,698 | 3.66% | 7,017,885 | 125,220 | 18% | 421,193 | 6.38% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5,060,195 | 161,541 | 3.30% | 5,381,432 | 96,021 | 14% | 321,237 | 6.35% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8,282,403 | 314,206 | 3.94% | 8,813,821 | 157,264 | 22% | 531,418 | 6.42% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,214,775 | 102,215 | 1.44% | 7,652,042 | 136,535 | 19% | 437,267 | 6.06% |
| **Cyfanswm** | **37,074,236** | **1,132,382** | **3.15%** | **39,411,879** | **703,223** | **100%** | **2,337,643** | **6.30%** |

# Atodiad B – Rhagolygon Poblogaeth Gogledd Cymru




https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year